CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL
Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Mehefin 25 2019 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday June 25 2019 at 7pm.

Presennol/*Present:* Liz Wood, Gordon Warren, Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Mike Roberts, Julie Ann Hughes, Carys Hughes, John Byast, Andy Hughes, Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths

Yn bresennol/*In attendance*: Carli Evans-Thau (Clerc/*Clerk),* Hywel Hughes (Cyfieithu/*Translation),* Aelodau o'r cyhoedd / *Members of the public.*

Ymddiheuriadau/*Apologies*: Gina Jones, Kevin Ellis (hwyr/late), Richard Jones

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/*Welcome and Apologies*
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Liz Wood ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Croesawyd John Byast yn ol wedi cyfnod o salwch.

The meeting was chaired by Liz Wood and all present were welcomed. John Byast was welcomed back following a period of ill health.

2 Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*
Dim/*None*

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*
Roedd rhai pwyntiau i'w ehangu a/neu cywirio cyn cymeradwyo'r cofnodion fel a ganlyn –

Cwestiynwyd pam nad oedd y drafodaeth ynglyn a cwyn i'r ombwdsmon wedi ei gynnwys yn y cofnodion, gan nodi bod hyn o bosib oherwydd fod y clerc wedi gadael yr ystafell ar y pryd. Nodwyd bod y Cyngor wedi cytuno mai penderfyniadau yn unig oedd i'w cynnwys yn y cofnodion, ynghyd ac unrhyw weithredu ar y penderfyniadau hynnu. Nid oedd posib mynd yn ol ar y penderfyniad yma am gyfnod o chwe mis. Nodwyd y byddai adroddiad y pwyllgor cyllid yn ateb y cwestiwn gwreiddiol ynglyn a'r drafodaeth dan sylw.

5.1 – materion priffyrdd, cynnig newid y frawddeg i 'petai unrhyw achos cyfreithiol'. Pawb yn cytuno.

6 – pwyllgorau allannol, cynnig newid y frawddeg 'cyfriofoldeb yr aelodau yw adrodd yn ol yn ysgrifennedig'. Pawb yn cytuno.

Gyda'r gwelliannau uchod, cymeradwywyd y cofnodion yn gywir, cynnig Myrddin Owens, eilio Gordon Warren.

Some matters needed clarification/correction before the minutes could be approved as follows:-

A question was raised as to why the complaint to the ombudsman had not been included in the minutes having noted that this might have been as a result of the clerk not being in the room at the time. It was noted that the Council had agreed that only decisions would be included in the minutes together with any actions pertaining to those decisions. It was not possible to rescind this decision for a period of six months. It was noted that the report of the finance committee would answer the original question in relation to the said discussion.

5.1 – highway matters, proposed to change the sentence to 'if there was any legal action'. Everyone in agreement.

6 – external meetings, proposed to change the sentence to ''it is the responsibility of members to report back with a written report'. Everyone agreed.

With the corrections above the minutes were confirmed as being accurate, proposed Myrddin Owens, seconded Gordon Warren.

4 Materion yn codi / *Matters Arising*

4.1 16.2 Cyfethol – cafwyd gyngor a chanllaw gan Un Llais Cymru, cytuno cysylltu eto gyda CSYM am gadarnhad. Cynnig Gareth Roberts, eilio John Byast.

16.2 Co-opting – advice and guidance had been received from One Voice Wales, agreed to contact IACC for confirmation. Proposed Gareth Roberts, seconded John Byast.

4.2 17.4 – Taliadau i Aelodau – newid y frawddeg i'w wneud yn fwy clir. 'Dosbarthwyd furflenni i bawb oedd yn bresennol i'w llofnodi os nad oeddent am dderbyn y taliad'.

17.4 – Payments to Members – change the sentence to make it more clear. 'Forms were distributed to everyone present for signing if they didn't wish to receive payment'

4.3 14 – Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Mon – nid oes diweddariad nac adborth hyd yma.

14 – North Anglesey Economic Regeneration Scheme – no update or feedback thus far.

4.4 5.2 – Bysiau – nid oes gwybodaeth pellach hyd yma. Fe ofynnodd Gareth Roberts faint o arian oedd wedi ei arbed wrth dorri'r gwasanaeth bws o Amlwch i Langefni. Nodwyd siom bod CSYM wedi codi'r dreth 9.5% a thorri gwasanaeth sylfaenol. Cadarnhaodd Aled Jones y byddai yn cysylltu a'r swyddogion perthnasol am gadarhad o'r hyn sydd wedi ei arbed. Roedd yr aelodau yn bryderus am golli'r gwasanaeth penodol yma gan bod nifer o swyddi yn cael eu colli yn y gymuned ac nad oedd posib cael i Langefni erbyn 9 o'r gloch ar gyfer cyfleon gwaith posib eraill. Nododd Meg Roberts ei fod yn eironig bod y gwasanaeth wedi ei dorri dim ond rhai misoedd ers gofyn am fwy o fysiau gan fod pobl yn gwrthod cyfleon gwaith oherwydd diffyg trafnidiaeth.

Fe ofynnwyd pwy oedd weid pleidleisio o blaid ac yn erbyn y cynydd sylweddol yn y dreth, nodwyd bod y wybodaeth i'r gael yn gyhoeddus ar wefan CSYM. Cadarnhaodd Richard Griffith ei fod wedi pleidleisio o blaid ac esboniodd ei resymeg am wneud hynnu.

5.2 – Buses – no further information at the moment. Gareth Roberts asked how much money had been saved by cutting the bus service from Amlwch to Llangefni. Disappointment was noted that IACC had increased the council tax by 9.5% whilst cutting basic services. Aled Jones confirmed that he would contact the relevant officers for confirmation of what has been saved. The members were concerned about losing this specific service as a number of jobs were being lost in the community and that it was not possible to get to Llangefni by 9am for potential alternative employment opportunities. Meg Roberts noted that it was ironic that the service had been cut only a few months after asking for more buses due to people turning down work opportunities due to lack of transport.

It was asked who had voted in favour of the substantial increase in the council tax and it was noted that the information was publicly available on the IACC website. Richard Griffith confirmed that he had voted in favour and explained his reasons for doing so.

4.5 11 – Cyfryngau Cymdeithasol – cafwyd ddiweddariad gan Carys Hughes yn dilyn cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r clerc. Bydd cyfarfod yncael ei drefnu gyda dylunydd y wefan er mwyn trafod gwahanol syniadau ac adrodd yn ol gyda costau tebygol.

11 – Social Media – Carys Hughes gave an update following a meeting with the clerk and the Chair. A meeting will be arranged with the website designer in order to discuss different ideas and to report back on the likely costs.

4.6 17.1 – Parcio ger yr Ysgol Gynradd – cafwyd ymateb gan CSYM, yr Heddlu a'r Ysgol. Gofynnwyd i'r cynghorwyr sirol fynd arol ehangu parcio am ddim ym meysydd parcio' CSYM yn ystod oriau gollwng a chodi plant o'r ysgol er mwyn hybu rhieni i barcio yn ddiogel. Nododd Aled Jones bod y maes parcio ger y fferyllfa am ddim am awr yn barod (drwy'r amser).

Nododd Myrddin Owens bod CSYM wedi arbed oddeutu £60k wrth ddiswyddo pobl 'lolipop' ledled yr ynys, roedd yr aelodau wedi siomi bod CSYM arbed £5k yn Amlwch a rhoi bywydau plant a'u rhieni mewn peryg. Cytuno cysylltu a CSYM i ofyn iddynt ail edrych ar y sefyllfa a'r arbedion. Cynnig Myrddin Owens, eilio Carys Hughes, pawb yn cytuno.

Bu i Kevin Ellis gyrraedd ac ymddiheuro ei fod yn hwyr yn cyrraedd.

17.1 – Parking by the Primary School – a response had been received from IACC, the Police and the School. The county councillors were asked to pursue the extension of free parking in the IACC car parks during the time when children are dropped off and picked up from school, in order to nudge parents to park more safely. Aled Jones noted that the car park by the chemist was already free for an hour (all the time).

Myrddin Owens stated that IACC had saved around £60k by making 'lollipop personnel' redundant throughout the island. The members were disappointed that IACC were saving £5k in Amlwch by jeopardising the lives of children and parents. It was agreed to contact IACC to ask them to re-consider the situation and savings. Proposed Myrddin Owens, seconded Carys Hughes, everyone in agreement.

Kevin Ellis arrived and apologised for being late.

4.7 5.1 – Priffyrdd – cafwyd ymateb gan Huw Percy ynglyn a phryderon yr aelodau. Mae wedi gofyn am restr o flaenoriaethau er mwyn gallu gwirio gyda'r swyddogion perthnasol ac ymateb yn ol i'r Cyngor. Cytuno mai blaenoriaethau'r Cyngor oedd:
- parcio ger yr ysgol
- marciau fordd ger y gylchfan
- llecynnau parcio ger Spar
- cyffordd ger y deintydd
- Bethesda St – goryrru, posib ei wneud yn ffordd un-ffordd

Aelodau i ebostio'r clerc gydag unrhyw pryderon arall i'w ychwanegu at y rhestr.

5.1 Highways – a response had been received from Huw Percy in relation to the members' concerns. He has asked for a priority list in order to check with the relevant officers and report back to the Council. It was agreed that the Council's priorities were:
- parking by the school
- road markings by the roundabout
- parking bays by Spar
- junction by the dentist's
- Bethesda Street – speeding, possibly making it a one way street
Members to e-mail the clerk with any other concerns to be added to the list.

4.8 16.1 – Moderneiddio Ysgolion – nodwyd bod oedi yn y broses yn ardal Amlwch ar hyn o bryd. Gofynnwyd i CSYM gadarnhau faint o arian oedd wedi ei wario ar y broses hyd yma.

16.1 – Modernising Schools – it was noted that there was currently a delay in the process in the Amlwch area. The IACC to be asked to confirm how much money had been spent on the process to date.

5 Pwyllgorau Allannol / *External Meetings*

5.1 Cafwyd adroddiad gan Liz Wood yn dilyn cyfarfod gyda cwmni Amlwch Community Sports CIC. Dosbarthwyd copiau o'r adroddiad i'r rheini oedd yn bresennol. Mae trafodaethau cychwynnol ar gyfer datblygu maes chwarae 3G i'r dref, mae angen trafodaethau pellach gyda'r adran addysg ac adran hamdden. Cytuno cysylltu a'r cwmni i ofyn a fyddai'r Cyngor Tref yn cael cynrychiolaeth ar eu bwrdd. Nododd Aled Jones y byddai yntau hefyd yn hoffi bod ynghlwm a'r trafodaethau.

Liz Wood gave a report following a meeting with Amlwch Community Sports CIC company. A copy of the report was distributed to those present. Initial discussions have taken place in relation to developing a 3G playing field in the town. Further discussions are required with the education and leisure departments. It was agreed to contact the company to ask if the Town Council could be represented on their board. Aled Jones noted that he too would like to be involved in the discussions.

5.2 Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn sesiwn gwybodaeth prosiect Morlais. Dosbarthwyd copiau o'r adroddiad i'r rheini oedd yn bresennol.

Gordon Warren gave a report following an information session on the Morlais project. A copy of the report was circulated to those present.

5.3 Cafwyd adroddiad ar lafar gan Liz Wood am sesiwn anffurfiol a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc mewn partneriaeth a'r adran dai ac YSTJ i rannu syniadau am brosiectau posib dros yr haf. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.

A verbal report was received from Liz Wood on an informal session held with children and young people in partnership with the housing department and Syr Thomas Jones School in order to share ideas about

possible projects over the summer. More information will follow.

5.4 Cafwyd adroddiad ar lafar gan Carys Hughes yn dilyn diwrnod o hyfforddiant a rhannu syniadau ynglyn a Siapio Cymunedau. Nodwyd bydd gofyn am gynrychiolaeth o'r cynghorau a Phartneriaeth Cynghorau Gogledd Mon.

A verbal report was received from Carys Hughes following a training and idea sharing day in relation to Place Shaping. It was noted that representation would be sought from the councils and the North Anglesey Councils Partnership.

6 Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee*

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Nododd bod y pwyllgor wedi trafod ymateb i'r gwyn a wnaed i'r Ombwdsmon ac wedi cytuno ar y gwelliant canlynol i gofnodion mis Mai. Byddai'r un wybodaeth i'w gynnwys yng nghofnodion y Cyngor Llawn – 'penderfynnwyd ysgrifennu at yr ombwdsmon a gofyn am eglurhad ynglyn y canlynol: 1) pam na gymerwyd tystiolaeth gan bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Mai 2018; 2) o ble gafwyd y manylion pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod; 3) a wnaeth y tystion ddatgan diddordebau; gofynnwyd i'r Cadeirydd gysylltu a'r ombwdsmon.

Cadarnhawyd bod tri tendr wedi ei dderbyn ar gyfer yr offer chwarae fel rhan o'r prosiect wedi ei ariannu gan y loteri. Bydd cyfarfod brys o'r pwyllgor prosiect i drafod ac ystyried y dogfennau yn fanwl, gyda cyfarfod arbennig o'r pwyllgor cyllid i gymeradwyo eu penderfynniad maes o law. Nodwyd bod y tri tendr o fewn cyrraedd yr arian sydd wedi ei gymeradwyo gan gronfa'r Loteri.

Nodwyd bod rhestr o daliadau ers y cyfarfod diwethaf ar gael gan y clerc fel yr arfer.

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r archwiliad mewnol wedi ei gwblhau gan archwiliwr anibynnol. Mae copi o adroddaid yr archwiliwr ar gael gan y clerc. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith ac am sicrhau bod materion cyllidol y Cyngor yn berffaith. Nododd y clerc bod y dogfennau i'w hanfon i'r archwiliwr allannol ar gael i'r aelodau eu gweld os am wneud hynnu. Mae'r pwyllgor cyllid wedi cymeradwyo'r ffurflen flynyddol.

Cafwyd cais gan Dance World Mon am gefnogaeth ariannol tuag at y gost o brynnu gwisgoedd newydd a mynychu cystadleuthau megis yr Eisteddfod Genedlaetho yn Llanrwst. Mae'r pwyllgor cyllid yn cynnig cyfrannu £1200 tuag at y costau, gan nodi'r amodau arferol. Bu cefnogaeth unfrydol.

Trafodwyd cyfryngau cymdeithasol, cafwyd diweddariad eisioes gan Carys Hughes.

Bu i aelodau'r cyhoedd adael y Siambr. Mae'r pwyllgor cyllid yn bryderus iawn wedi derbyn llythyr gan aelod yn ymddiswyddo o ganlyniad i ymddygiad dau aelod. Mae hyn yn fater o bosib i'r ombwdsmon, a/neu hefyd o bosib yn fater i'r heddlu.

Cytuno yn unfrydol byddai Liz Wood a Myrddin Owens yn ymweld a'r unigolyn i gael mwy o wybodaeth. Nodwyd bod y mater yn gyfrinachol nes bydd trafodaethau pellach wedi cymryd lle. Cafwyd wybod bod unigolyn arall wedi son am rywbeth tebyg a bod yr heddlu ynghlwm a materion eraill.

Bu i'r mwyafrif o'r cyhoedd ddychwelyd i'r Siambr.

Myrddin Owens reported following the last meeting of the committee. He stated that the committee had discussed the response to the complaint made to the Ombudsman and had agreed to the following amendment to the May minutes. The same information to be included in the minutes of the full Council – 'it was resolved to write to the Ombudsman and ask for an explanation in relation to the following: 1) why wasn't everyone that were present in the meeting in May 2018 approached to provide evidence; 2) where was the information in relation to who was present in the meeting sourced; 3) did the witnesses declare an interest; the Chair was asked to contact the Ombudsman.

It was confirmed that three tenders had been received for play equipment as part of the project financed by the lottery. A special meeting of the project committee will be convened to discuss and consider the documents in detail with a special meeting of the finance committee to be arranged in due course to approve the decision. It was noted that the three tenders were within the finance secured from the Lottery fund.

It was noted that a list of payments made since the last meeting were available as usual from the clerk.

Since the last meeting, the internal audit has been completed by an independent auditor. A copy of the auditor's report is available from the clerk. The clerk was thanked for her work and for ensuring that the Council's financial affairs were perfect. The clerk noted that the documents that were sent to the external auditor were available for the members to see if they wanted. The finance committee had approved the annual form.

An application for financial support to buy new costumes and to compete at the National Eisteddfod in Llanrwst was received from Dance World Mon. The finance committee were proposing to contribute £1200 towards the costs noting the customary conditions. It was supported unanimously.

Social media was discussed and an update had already been received from Carys Hughes..

Members of the public left the Chamber. The finance committee had concerns in relation to a letter of resignation received from a member, resulting from the behaviour of two members. This is a potential matter for the Ombudsman, and/or for the police..

It was agreed unanimously that Liz Wood and Myrddin Owens visit the individual to get more information. It was noted that the matter remain confidential until further discussions had taken place. It was reported that another individual had mentioned something similar and that the police were involved with other matters..

Most of the public returned to the Chamber.

7 Adroddiad Pwyllgor y Fynwent / *Cemetery Committee Report*

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Meg Roberts. Nodwyd bod cais cynllunio i'w gyflwyno ar gyfer adran 12 yn fuan er mwyn bod yn barod i'r dyfodol. Nodwyd bod pawb yn talu clod i'r fynwent a bu llongyfarch y pwyllgor am eu gwaith.
Meg Roberts gave a summary of the meeting. It was noted that a planning application would soon be presented for section 12 in order to be ready for the future. It was noted that the cemetery was being praised and the committee was congratulated for its work.

8 Adroddiad Pwyllgor Cynllunio / *Planning Committee Report*

Cadarnhawyd sylwadau'r pwyllgor fel a ganlyn:

- FPL2019/131 (36 Stryd y Capel) – dim gwrthwynebiad
- HHP/2019/133 (6 Brickfield) – dim gwrthwynebiad
- ELE2019/3 (Bonc y Cryff, Tan y Bryn House) – dim gwrthwynebiad
- FPL2019/1 (Capel Carmel, Borth Amlwch) – tynnu sylw'r swyddogion at broblemau mynediad posib
- HHP/2019/128 (1 Pen y Cefn) – dim gwrthwynebiad mewn egwyddor on cwestiynnu taldra y ffens.

The committee's comments were noted as follows:

- *FPL2019/131 (36 Stryd y Capel) – no objection*
- *HHP/2019/133 (6 Brickfield) – no objection*
- *ELE2019/3 (Bonc y Cryff, Tan y Bryn House) – no objection*
- *FPL2019/1 (Capel Carmel, Borth Amlwch) – to draw officers attention to possible access problems*
- *HHP/2019/128 (1 Pen y Cefn) – no objection in principle but to question the height of the fence.*

9 Prosiect Loteri/*Lottery Project*

Nodwyd bod tri cwmni wedi ymateb i'r ddogfen dendr. Bydd cyfarfod y pwyllgor prosiect yn cael ei drefnu cyn cynted a phosib i'w ddilyn gan cyfarfod arbennig o'r pwyllgor cyllid er mwyn cymeradwyo'r cytundeb ac anfon gwybodaeth i'r loteri er mwyn gallu symud ymlaen a'r prosiect cyn gynted a phosib.

It was noted that three companies had responded to the tender. A meeting of the project committee would be convened as soon as possible to be followed by a special meeting of the finance committee in order to ratify the agreement and to send information to the lottery in order to move forward with the project as soon as possible.

10 Wylfa Newydd

Nid oes diweddariad am y prosiect ar hyn o bryd.
No update on the project at this moment in time.

11 Canolfan Hamdden/*Leisure Centre*

Cafwyd cyfarfod bositif gyda Gerallt Roberts, Rheolwr Masnachol Hamdden CSYM. Cafwyd wybod bod arian yn y gyllideb ar gyfer newid boiler y ganolfan yn y flwyddyn ariannol yma, a gobeithio bydd cylldieb ar gael ar gyfer rhoi sylw i'r to y flwyddyn nesaf. Gofynnwyd i CSYM ystyried gosod paneli solar ar y to er mwyn gwella effeithlonrwydd y ganolfan ac arbed costau. Bydd cyfarfod pellach i'w drefnu gyda Rhyd Griffiths (adran eiddo) a Mair Eluned (rheolwr adnoddau). Cafwyd wybod hefyd bod trafodaethau cychwynol ynglyn a'r posibilrwydd o ddatblygu safle 3G fel rhan o' gyfleusterau'r ganolfan mewn partneriaeth a'r ysgol a'r gymuned. (*gweler hefyd adroddiad Liz Wood, cyfarfodydd allannol).*

A positive meeting had taken place with Gerallt Roberts, Commercial Leisure Manager IACC. Information was provided that there was money in the budget for changing the centre's boiler during this financial year and it was hoped that there would be money for work on the roof next year. IACC were asked to consider

installing solar panels on the roof to improve the effectiveness of the centre and to save money. A further meeting to be arranged with Rhyd Griffiths (property department) and Mair Eluned (resource manager). Information was also provided that initial discussions had been held in relation to the possibility of developing a 3G site as par of the centre's facilities in partnership with the school and the community (see also Liz Wood's report under external meetings).

12 Marchnad Amlwch Market

Cafwyd ymateb gan CSYM mewn perthynas a rheolaeth y farchnad. Cytuno gofyn i CSYM am gopi o'r drwydded ar gyfer cynnal y farchnad. Mae angen i CSYM esbonio pam eu bod wedi rhoi holl hawliau'r farchnad i un unigolyn am gyfnod sylweddol. Cytuno gwahodd pennaeth i gyfarfod i egluro ymhellach. Y clerc i anfon ebost, gyda chopi i'r tri cynghorydd sirol. Cynnig Meg Roberts, eilio Carys Hughes, pawb yn cytuno.

A response had been received from IACC in relation to the management of the market. It was agreed to ask IACC for a copy of the licence for running the market. IACC need to explain why they have given all the rights in relation to the market to one person for a substantial period. It was agreed to invite a senior officer to the meeting to explain this further. The clerk to send an e-mail, copying the three county councillors. Proposed by Meg Roberts and seconded by Carys Hughes with everyone in agreement.

13 Parcio Cyfyngedig /*Restricted Parking*

Beth sydd yn digwydd gyda paentio llinellau melyn a llecynnau parcio yn y dref? Mae'r mater wedi ei grybwyll eisioes (materion priffyrdd uchod).

What's happening with painting yellow lines and parking spaces in the town? The matter has been referred to previously (highway matters above)

14 Safle Rehau *Site*

Nododd Gareth Roberts ei bryderon am 700 o swyddi sydd i'w colli yng ngogledd Mon. Teimlai bod safle rehau yn gyfle i gynnig cefnogaeth i gwmniau lleol a darpar gwmniau sefydlu ac ehangu. Nododd y dylai Llywodaeth Cymru brynnu'r safle i'r Sir, a datblygu 15-20 o unedau llai ar y safle i hybu busnes lleol sydd yn bwysig iawn i'r ardal. Byddai hyn yn creu hyd at 200 o swyddi yn y dref. Cynnigwyd bod y Cyngor yn ysgrifennu at y Llywodraeth i symud ar fryder. Mae angen denu cwmniau i'r ardal, ond mae angen hefyd gallu cynnig cyfleusterau addas. Cytuno ysgrifennu hefyd at CSYM yn cefnogi cais i brynnu'r safle. Cynnig Gareth Roberts, eilio Myrddin Owens.

Gareth Roberts noted his concern about the 700 jobs being lost in North Anglesey. He felt that the Rehau site should be an opportunity to offer support for local and prospective companies to be established or extended. He stated that Welsh Government should buy the site for the Island and develop 15-20 small units there to foster local businesses that are so important to the area. This would create up to 200 jobs in the town. It was proposed that the Council write to the Government asking them to act expeditiously. There is a need to attract business to the area but there is also a need to provide suitable facilities. It was also agreed to write to IACC to ask for support in buying the site. Proposed by Gareth Roberts and seconded by Myrddin Owens.

15 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol/*Questions to the County Councillors*

Nododd Meg Roberts nad oedd yr arwydd ar gyfer Stryd Bethesda wedi ei osod fyth, nac ychwaith yr arwydd ar gyfer Pig y Rhos nac Lon Goed. Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion perthnasol unwaith eto.

Fe ofynnodd Carys Hughes pwy oedd yn gyfrifol am roi'rgiat ar y fynedfa i'r maes parcio ar y mynydd. Nid yw pobl mewn 'campervans' yn gallu cael i fewn i'r maes parcio oherwydd uchdwr y cerbydau, ac mae'n beryg ceisio croesi'r lon o'r gilfan gyferbyn. Liz Wood i adrodd yn ol i'r Ymddiriedolaeth Treftadaeth.

Meg Roberts stated that the sign for Bethesda Street still hadn't been erected, neither the sign for Pig y Rhos or Lon Goed. Aled Jones to contact the relevant officers once again.

Carys Hughes asked who was responsible for putting a gate on the entrance to the car park on the mountain. People in campervans can't gain access to the car park due to the height restriction and it's dangerous to try and cross the road from the layby opposite. Liz Wood to report this to the Heritage Trust.

16 Gohebiaeth / *Correspondence*

16.1 Safle Octel – cafwyd wybod bod gwaith i didogelu'r safle ar fin cychwyn, mae hyn yn cynnwys dymchwel nifer o adeiladau. Mae'r gwybodaeth diweddaraf gan Liz Wood, a bydd yn anfon y manylion ar y clerc gyn gynted a phosib.

Octel Site – information was received that work to secure the site was on the verge of starting, this includes demolishing a number of buildings. Liz Wood has the most up-to-date information and she will share it with the clerk as soon as possible.

16.2 Pencampwr y Gymraeg – mae gofyn i'r Cyngor benodi pencampwr yr iaith. Cytuno byddai Myrddin Owens yn parhau a'r rol.

Welsh Language Champion – the Council needs to appoint a Welsh language champion. It was agreed that Myrddin Owens continues in the role.

16.3 Tir tu ol i'r Lucky House, Stryd Mona – cafwyd gadarnhad gan yr adran dai eu bod yn gweithio gyda Tai Pennaf i ddatblygu dau dy arbennigol i deuluoedd leeol sydd a phlant anabl. Cadarnhawyd bod arolwg ecolegol wedi ei gwblhau yn barod a bod asesiad pellach o'r tirwedd yn cael ei gwblhau o fwen yr wythnos. Nid oes cais cynllunio wedi ei gyflwyno hyd yma. Nododd yr aelodau eu pryderon am ddefnydd blaenorol y safle fel ffatri baent a bod posibilrwydd bod y tir wedi ei lygru a phlwm, mae angen sicrwydd am ddiogelwch plant. Mae hefyd pryderon am y wiwer goch yn yr ardal. Cytuno gofyn am gopi o'r adroddiad ecolegol er gwybodaeth, a chodi ymwybyddiaeth am bryderon yr aelodau, rwan a phan ddaw cais cynllunio gerbron.

To the rear of Lucky House, Mona Street – confirmation was received from the housing department that they were working with Tai Pennaf to develop two specialist properties for local families who have disabled children. It was confirmed that an ecological survey had been undertaken already and that a further assessment on the landscape would be completed within the week. No planning application has been presented thus far. The members noted their concerns about the previous use of the site as a paint factory and that there was a possibility that the land could have been contaminated by lead. There were also concerns about the red squirrel in the area. It was agreed to ask for a copy of the ecological report for information and to raise awareness of the members concerns both now and when the planning application is submitted.

16.4 Daw nodyn o ddiolch gan drefnwyr y Ffair ym Mharc Lon Goch. Maent hefyd yn gofyn am ganiatad i gynnal y ffair eto y flwyddyn nesaf. Ni fu gwrthwynebiad. Nododd Julie Hughes er gwybodaeth bod twrnament pel droed ieuenctid Amlwch yn cael ei gynnal fel rheol ar yr un pen wythnos.

A thank you note had been received from the organisers of the Fair in Park Lon Goch. They also asked for permission to hold a fair again next year. There were no objections. Julie Hughes noted for information that the Amlwch youth football tournament is usually held on the same weekend.

16.5 Garej Glanrhos – cafwyd gadarnhad gan CSYM eu bod wedi ymweld a'r safle ac nad oedd yn fater gorfodaeth cynllunio. Maent fodd bynnag wedi cysylltu a'r perchogion i ofyn am welliannau. Cytuno ysgrifennu yn ol at CSYM i ddiolch am eu gwaith a nodi bydd yr aelodau yn monitro'r sefyllfa.

Glanrhos Garage – confirmation had been received from IACC that they had visited the site and that it wasn't a planning enforcement matter. However, they have been in touch with the owners to ask for improvements. Agreed to write back to IACC to thank them for their work and to note that the members will monitor the situation.

16.6 Ymgynghoriad Polisi Gosod Tai – mae'r CSYM yn ymgynghori ar hyn o bryd a ddylai gynnwys cyswllt cymunedol fel rhan o'r asesiad gosod tai. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon y wybodaeth i'r holl aelodau cyn y cyfarfod drwy ebost. Mae angen ymateb erbyn 5/8/2019. Cytuno cynnwys yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod yn llawn. Cytuno gofyn i CSYM am gopi o'r system asesu bresennol.

Consultation on Housing Letting Policy – IACC are currently consulting on whether to include community links as part of the assessment for housing letting. The clerk confirmed that she had sent the information to all the members by e-mail before the meeting. A response is required by 5/8/2019. It was agreed to include this as an agenda item for the next meeting in order to have a full discussion. It was agreed to ask IACC for a copy of the current assessment process.

17 **Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***
Dim/None

18 **Dyddiad y cyfarfod nesaf/*Date of next meeting***
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Gorffennaf 23 2019 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday July 23 2019 at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50 / *The meeting closed at 20.50*

Arwyddwyd / Signed:
Liz Wood, Cadeirydd / Chair